

Cosheston

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 5.6 milltir (9.0 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth 361 yn Slade Cross (A477)

CYMERIAD: Cerdded trwy goetir wrth ymyl yr aber, heolydd tawel a thir fferm gweithgar

CHWILIWCH AM: Olion tŷ cwch ym mhen Bae'r Felin • Golygfeydd gwyh o'r aber


MWY O WYBODAETH: Fe fydd y Llwybr Caniataol rhwng A a B ar gau ar gyfer saethu yn ystod Rhagfyr ac Ionawr

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y Llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- • • • • Llwybr Cylch
- — — — — Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws
- Tafarn



Cosheston

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.6 milltir (9.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws
gwasanaeth 361 yn Slade Cross
(A477).

Cyfeirnod map: SN008045

Chwiliwch am: Olion tŷ cwch ym
mhen Bae'r Felin, golygfeydd gwych o'r
aber.

Mae'r llwybr yn cynnig amrywiaeth o
olygfeydd a sawl 'naws' wahanol.

O'r heolydd tawel o amgylch hen
bentref Cosheston fe allwch weld
enghreiffiau da o hen gaeau strïbed.

Mae'r bont grom o garreg dros y nant
sy'n rhedeg i mewn i Fae'r Felin yn
newydd (fe'i adeiladwyd gan
Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol yn
2005), a'r hen adfail ar ben y bae yw
adeilad y cychod sy'n gysylltiedig â
Neuadd Cosheston.

Mae ochr ddwyreiniol y llwybr dros dir
fferm ac mae'n bosib y bydd yna dipyn
o dda byw yno, felly cadwch eich cŵn
o dan reolaeth dynn.

Mwy o wybodaeth: Fe fydd y
Llwybr Caniataol rhwng A a B ar gau
ar gyfer saethu yn ystod Rhagfyr ac
Ionawr.